**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 2 Mehefin 2015

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Paul McGrady

**Awdur yr Adroddiad:** Richard Weigh, Prif Gyfrifydd

**Teitl:** Adroddiad Cyllid a Diweddariad ar y Cynllun Corfforaethol

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi cyllideb, arbedion y cytunwyd arnynt a Chynllun Cyfalaf y Cyngor ar gyfer 2015/16. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad ar y Cynllun Corfforaethol a'r cynnig i gynyddu'r buddsoddiad mewn cynnal a chadw priffyrdd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor ac i gymeradwyo diwygiadau i'r Cynllun Corfforaethol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn nodi cyllidebau ac arbedion 2015/16.

Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r newidiadau bwriedig i'r Cynllun Corfforaethol.

- Cynyddu gwariant ar gynnal a chadw priffyrdd gan £800 mil y flwyddyn a chadarnhau'r rhagdybiaethau a nodir yn y Cynllun

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2015/16 yn **Atodiad 1**. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £185 miliwn (£188 miliwn yn 14/15). Mae crynodeb o gynigion arbedion yn **Atodiad 2**.

### Cynllun Corfforaethol

Pan lansiwyd y Cynllun Corfforaethol yn 2012, roedd yn nodi rhaglen uchelgeisiol o fuddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion, ffyrdd, gofal cymdeithasol a moderneiddio a oedd yn sail i'r blaenoriaethau a wnaed gan y Cyngor ar gyfer y tymor gweinyddol presennol. Sefydlwyd yr uchelgais o fewn y Cynllun yn erbyn y realiti ariannol o ran buddsoddi sylweddol mewn blaenoriaethau ar yr un pryd â lleihau gwariant mewn meysydd eraill.

Mae gweithredu'r Cynllun yn dibynnu ar y Cyngor yn sicrhau cyllideb refeniw i ariannu benthyca a nodi a chynnal arian wrth gefn sylweddol. Mae'n dibynnu hefyd ar grant y Llywodraeth i helpu i gyflwyno rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ac mewn blynyddoedd ariannol blaenorol, mae grant y Llywodraeth hefyd wedi cefnogi cyllido buddsoddiad ychwanegol ar gyfer priffyrdd. Fodd bynnag, yn 2012, er y nodwyd cynllun ariannu, nid oedd yn sicr y gallai costau a nodwyd a lefelau adnoddau i dalu amdanynt mewn gwirionedd gael ei sicrhau.

Ers 2012, wrth i'r Cynllun ddatblygu, mae'r cyllid sy'n sail iddo wedi symud o ragolwg uchelgeisiol i strategaeth gadarn, fforddiadwy. I wneud y Cynllun yn fforddiadwy, mae rhai diwygiadau wedi bod yn angenrheidiol ochr yn ochr â newidiadau mewn rhagdybiaethau cynllunio. Mae newidiadau o'r fath yn anochel wrth gynllunio ariannol ar gyfer y tymor hir.

Yn Chwefror 2015, fel rhan o'r cynigion i osod y gyllideb ar gyfer 2015/16, penderfynwyd rhoi blaenoriaeth i ddarparu Cynllun Corfforaethol mewn rowndiau cyllideb yn y dyfodol. Ochr yn ochr â hyn, cyflwynwyd crynodeb o'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cynllun sydd wedi'i nodi isod:

| | **Cynllun uchelgeisiol 2012 £miliwn** | **Cynllun Fforddiadwy Chwef 2015 £miliwn** |
|---|---:|---:|
| Ysgolion – Rhaglen 21ain Ganrif | 74 | 69 |
| Rhaglen Foderneiddio Ysgolion | 23 | 17 |
| Gofal Cymdeithasol – Tai Gofal Ychwanegol | 21 | 21 |
| Adfywio – Gofod Swyddfa | 6 | 0 |
| Priffyrdd | 10 | 12 |
| **Amcangyfrif o Gostau Cyfalaf** | **134** | **119** |
| **Ariannwyd gan:** | | |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | 42 | 48 |
| Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor | 20 | 24 |
| Benthyca'r Cyngor | 58 | 33 |
| Cyfraniadau Allanol (Gofal Ychwanegol) | 14 | 14 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **134** | **119** |

Y prif newidiadau i'r Cynllun gwreiddiol yw cael gwared ar y prosiect Gofod Swyddfa ac amcangyfrif o gost llai rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r addasiadau hyn, ynghyd ag adnoddau a nodwyd eisoes ac y clustnodwyd, yn golygu bod y Cynllun bellach yn fforddiadwy ac yn gyflawnadwy. Yn hanfodol, mae'r cyngor wedi parhau i roi blaenoriaeth i ddarparu'r Cynllun ac wrth wneud hynny, mae wedi sicrhau bod yr adnoddau sy'n ofynnol wedi ymrwymo mewn gwirionedd. Mae hyn wedi'i ategu gan bolisi o unrhyw wargedau ariannol sydd heb eu neilltuo neu arian wrth gefn a ddefnyddir i gefnogi'r Cynllun.

Mae'r Cynllun yn cynnwys £11.7 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol ar gyfer Priffyrdd ar hyn o bryd. O hwn, roedd £4.9miliwn wedi'i ariannu'n benthyca o

dan Fenter Benthyca Llywodraeth Leol. Daeth y cyllid hwn i ben fel rhan o Setliad Cyllideb 2015/16 ac roedd yn golygu y gallai buddsoddi mewn priffyrdd orfod gostwng o ganlyniad. Mae lefel y buddsoddiad yn ffyrdd y sir yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwella safonau ond dengys arolygon technegol i sicrhau y cynhelir lefelau presennol, mae angen £800 mil y flwyddyn yn ychwanegol. Gan gymryd bod y lefel bresennol o fenthyca darbodus ar gyfer priffyrdd yn cael ei gynnal (£1.750miliwn y flwyddyn ond yn amodol ar gymeradwyaeth fel rhan o'r broses cyllideb flynyddol), byddai hyn yn cynyddu'r gwariant ychwanegol ar gynnal a chadw priffyrdd gan £3.2 miliwn i £18.4 miliwn dros oes y Cynllun. Yna byddai cyfanswm cost y Cynllun yn £125.9miliwn. Mae'n bosibl dyrannu adnoddau ychwanegol i'r priffyrdd i ariannu'r £880miliwn ychwanegol y flwyddyn oherwydd bod costau benthyca wedi bod yn is nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

Yn seiliedig ar y tybiaethau diweddaraf o fewn y Cynllun, mae'n bosibl ariannu adnoddau ychwanegol fydd eu hangen i gynnal y ffyrdd at y safon bresennol – ac yn bwysicach na hynny, er mwyn osgoi dirywiad sylweddol sy'n creu rhwymedigaeth ariannu yn y dyfodol. Mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn ond yn bosibl os yw gweddill y tybiaethau yn y Cynllun yn parhau ac y sicrheir y cyllidebau refeniw ychwanegol wedi'i gynllunio i gefnogi'r Cynllun (£250mil yn 2016/17 a £200mil y flwyddyn wedi hynny).

Dylid nodi mai rhagdybiaeth allweddol yn y cynllun presennol yw bod cyllid y prosiect ysgol ffydd dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn seiliedig ar y cyngor yn ariannu 15% o gyfanswm y gost amcangyfrifedig o £23miliwn. Byddai newidiadau i'r dybiaeth hon yn cael gwared ar y posibilrwydd o fuddsoddi ychwanegol mewn ffyrdd a fyddai'n peryglu neu oedi cyflawni prosiectau eraill.

Dangosir copi o fersiwn ddiweddaraf y Cynllun, gan gynnwys y buddsoddiad ychwanegol mewn priffyrdd, fel Atodiad 4.

Ar ddechrau 2014/15 roedd cronfeydd wrth gefn yn £14.4 miliwn. Gan gyfrif ar gyfer trosglwyddo yn ystod y flwyddyn, mae arian a godir i ariannu'r Cynllun erbyn diwedd y flwyddyn yn debygol o gyrraedd cyfanswm o £18.4miliwn, £11miliwn ohono naill ai'n cael ei wario neu ei ymrwymo i gynlluniau presennol, fel Ysgol Uwchradd y Rhyl. Mae angen y gweddill i ariannu cynlluniau yn y dyfodol a nodwyd yn y Cynllun. Cyfanswm yr arian sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun yw £23.8miliwn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae manylion y gyllideb o fewn yr atodiadau.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Cafodd asesiad o effaith manwl ei lunio fel rhan o'r broses o bennu cyllideb ac adroddwyd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2014.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cafwyd proses ymgynghori sylweddol gyda'r aelodau, staff ac eraill wrth i'r gyllideb ar gyfer 2015/16 gael ei datblygu. Ymgynghorwyd gyda phartneriaid allanol hefyd ac roedd yna ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus i asesu effaith penderfyniadau cyllidebol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa'r gostyngiadau y mae'n ofynnol eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

Gall y Cynllun Corfforaethol ond cael ei gyflenwi o fewn yr adnoddau a nodwyd. Bydd newidiadau yn y tybiaethau allweddol sy'n sail i'r Cynllun neu fethiant i sicrhau'r gyllideb a'r arian sydd ei angen yn arwain at brosiectau yn cael eu dileu neu eu gohirio. Mae costau benthyca is wedi golygu y gall adnoddau gael eu dyrannu i ariannu £800mil o fuddsoddiad ychwanegol mewn priffyrdd. Mae dyraniadau cyllideb blynyddol i'r Cynllun Corfforaethol yn amodol ar y broses cymeradwyo cyllideb blynyddol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni'r strategaeth y cytunwyd arni gogyfer â'r gyllideb yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.